

## **Hysbysiad Preifatrwydd Gweithwyr Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru**

Mae Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru (GTAGC) yn casglu, prosesu a storio data personol yn ymwneud â'i weithwyr er mwyn rheoli cysylltiadau cyflogaeth. Mae GTAGC yn ymroddedig i fod yn agored yn glŷn â sut y mae'n casglu a defnyddio'r data hwnnw a chyflawni ei ymrwymadau diogelu data.

Mae'r ddogfen hon yn rhoi gwybodaeth allweddol y mae gweithwyr ei hangen mewn perthynas â phreifatrwydd a diogelwch eu data; gellir cyfeirio unrhyw ymholiadau pellach at Swyddog Diogelu Data y Gwasanaeth:

**Swyddog Diogelu Data, Pencadlys Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru, Ffordd Salesbury, Parc Busnes Llanelwy, Llanelwy LL17 0JJ. Ffôn: 01745 535250. Ebst: [dpo@tangogleddcymru.llyw.cymru](mailto:dpo@tangogleddcymru.llyw.cymru)**

### **Pa ddata personol y mae GTAGC yn ei brosesu a sut?**

Mae'r wybodaeth a brosesir yn cynnwys:

- eich enw, cyfeiriad a manylion cyswllt, gan gynnwys cyfeiriad epost a rhif ffôn, dyddiad geni a hunaniaeth rhyw;
- telerau ac amodau eich cyflogaeth;
- manylion eich cymwysterau, sgiliau, profiad a hanes cyflogaeth, gan gynnwys dyddiadau cychwyn a gorffen, gwaith gyda chyflogaeth blaenorol a GTAGC;
- gwybodaeth am eich cydnabyddiaeth ariannol, gan gynnwys hawl i fudd-daliadau megis pensïynau ac yswiriant;
- manylion eich cyfrif banc a rhif yswiriant gwladol;
- gwybodaeth am eich statws priodasol, perthynas agosaf, dibynnyddion a chyswllt mewn argyfwng;
- gwybodaeth am eich cenedl a' ch hawl i weithio yn y DU;
- unrhyw wybodaeth am gofnod troseddol;
- unrhyw bresenoldeb cyhoeddus sydd gennych ar y cyfryngau cymdeithasol;
- manylion eich atodlen (dyddiau gwaith ac oriau gwaith) a phresenoldeb yn y gwaith;
- manylion cyfnodau o absenoldeb a gymerwyd gennych, gan gynnwys gwyliau, absenoldeb salwch, gwyliau teuluol a chyfnodau sabothol, a'r rheswm am yr absenoldeb;
- manylion unrhyw drefniadau disgyblu neu gwyno rydych wedi bod yn rhan ohonyn nhw, gan gynnwys unrhyw rybuddion a gyflwynwyd a gohebiaeth gysylltiedig;
- asesiadau o'ch perfformiad, gan gynnwys arfarniadau, arolygon perfformiad a sgoriau, hyfforddiant rydych wedi cymryd rhan ynddo, cynlluniau gwella perfformiad a gohebiaeth gysylltiedig;
- gwybodaeth am gyflyrau meddygol neu iechyd, gan gynnwys os oes gennych anabledd y gallai fod angen i GTAGC wneud addasiadau rhesymol ar ei gyfer; a
- gwybodaeth monitro cyfle cyfartal, gan gynnwys gwybodaeth am eich tarddiad ethnig, tueddfryd rhywiol, iechyd a chrefydd neu gred ayyb.

Mae GTAGC yn casglu'r wybodaeth hon mewn amrywiol ffyrdd. Er enghraifft, cesglir data trwy gyfrwng ffurflenni cais arlein a phapur, o ddogfennau a ddarparwyd i gadarnhau pwy ydych chi a' ch hawl i weithio yn y DU (megis pasbort a thrwydded yrŷ); o ffurflenni a gwblheir gennych chi ar ddechrau neu yn ystod eich cyflogaeth (megis ffurflenni enwebu budd-daliadau); gohebiaeth gyda chi; neu drwy gyfweiliadau, cyfarfodydd neu asesiadau eraill, ac weithiau o wybodaeth rydych yn ei rhoi ar y cyfryngau cymdeithasol neu wybodaeth rydych yn ei rhoi ar rwydwaith cyfryngau

cymdeithasol preifat sy'n cael ei hanfon ymlaen atom ni. Bydd GTAGC yn ymchwilio i unrhyw bryderon mewn perthynas â phresenoldeb ar gyfryngau cymdeithasol a gwrthdrawiadau posibl gyda'n Gwerthoedd Craidd ac ni fydd yn cymryd penderfyniadau recriwtio yn seiliedig ar bresenoldeb ar gyfryngau cymdeithasol yn unig.

Mae'n bosib y bydd GTAGC hefyd yn recordio cyfweiliadau, cyfarfodydd neu asesiadau eraill gan ei fod yn un o'r ffyrdd mwyaf addas o gadw'r wybodaeth am drafodaethau sydd wedi digwydd, fel y gall y sawl sy'n cymryd cofnodion gyflawni ei dasg neu alluogi i bobl a oedd yn rhan o'r cyfarfod (neu a oedd yn absennol) gael gafael ar recordiad o'r cyfarfod. Hefyd, caiff pob galwad i'r Ystafell Reoli ei recordio er mwyn cadw cynnwys yr alwad, mae hyn yn cynnwys galwadau gan weithwyr mewn perthynas â chyflawni gweithgareddau yn ymwneud â'r gwaith yn ogystal â riportio digwyddiadau neu sefyllfaoedd sydd yn ymwneud â chi'n bersonol.

Mewn rhai achosion, mae GTAGC yn casglu gwybodaeth bersonol amdanoch gan drydydd partiön, megis tystlythyrau a ddarparwyd gan gyn-gyflogwyr, gwybodaeth gan ddarparwyr archwiliadau cefndir cyflogaeth, gwybodaeth gan asiantaethau cyfeirio credyd a gwybodaeth o archwiliadau cofnodion troseddol a ganiateir gan y gyfraith.

### **Pam y mae GTAGC yn prosesu data personol?**

Mae angen i GTAGC brosesu data personol er mwyn llunio contract cyflogaeth gyda chi ac i fodloni ei gyfrifoldebau dan eich contract cyflogaeth. Er enghraifft, mae angen iddo brosesu eich data i roddi contract gwaith i chi, i'ch talu yn unol â'ch contract gwaith ac i weinyddu hawliadau budd-daliadau a phensiwn.

Mewn rhai achosion, mae angen i GTAGC brosesu data i sicrhau ei fod yn cydymffurfio â'i ymrwymadau cyfreithiol. Er enghraifft, mae angen iddo wneud archwiliad i hawl gweithiwr i weithio yn y DU, i gasglu trethi, i gydymffurfio gyda chyfreithiau iechyd a diogelwch ac i alluogi i weithwyr gymryd cyfnodau o absenoldeb y mae ganddynt hawl iddyn nhw. Cynhelir gwiriadau Datgelu a Gwahardd (DBS) ar gyfer pob rôl o fewn GTAGC ac ymgwymerir ag adnewyddiadau rheolaidd bob tair blynedd i sicrhau bod GTAGC yn cynnal amgylchedd gwaith diogel a sicr ar gyfer ein gweithwyr a'r cymunedau rydym yn gwasanaethu. Ar gyfer rhai swyddi, mae angen ymgymryd ag archwiliad manwl cofnodion troseddol i sicrhau bod gan unigolion yr hawl i ymgymryd â'r rôl dan sylw.

Mewn achosion eraill, mae gan GTAGC ddiddordeb dilys mewn prosesu data personol cyn, yn ystod ac ar ôl i'r berthynas waith ddod i ben. Mae prosesu data gweithwyr yn caniatáu i GTAGC:

- redeg prosesau recriwtio a dyrchafu;
- cynnal cofnodion cyflogaeth cywir a diweddaraf a manylion cyswllt (gan gynnwys manylion pwy i gysylltu gyda nhw os oes argyfwng), a chofnodion hawliau cytundebol a statudol gweithwyr;
- gweithredu a chadw cofnod o brosesu disgyblu a chwyno, i sicrhau ymddygiad boddhaol yn y gweithle;
- gweithredu a chadw cofnod o brosesau perfformiad gweithiwr a phrosesau cysylltiedig, i gynllunio ar gyfer datblygu gyrfa, ac i bwrpasau cynllunio dilyniant a rheoli'r gweithlu;
- gweithredu a chadw cofnod o drefniadau absenoldeb a rheoli absenoldeb, i ganiatáu rheoli'r gweithlu'n effeithiol a sicrhau bod gweithwyr yn derbyn y cyflog a'r budd-daliadau eraill y mae ganddyn nhw hawl iddynt;
- cael cyngor iechyd galwedigaethol, i sicrhau ei fod yn cydymffurfio gyda dyletswyddau mewn perthynas ag unigolion ag anabledd, cyflawni ei ymrwymadau dan gyfraith iechyd a diogelwch a sicrhau bod gweithwyr yn derbyn y cyflog a'r budd-daliadau eraill y mae ganddyn nhw hawl iddynt;

- gweithredu a chadw cofnod o fathau eraill I absenoldeb (gan gynnwys mamolaeth, tadolaeth, mabwysiadu, rhieni ac absenoldeb rhieni a rennir), i ganiatáu rheoli'r gweithlu'n effeithiol, i sicrhau bod GTAGC yn cydymffurfio â dyletswyddau mewn perthynas â hawl i absenoldeb, ac i sicrhau bod gweithwyr yn derbyn y cyflog a'r budd-daliadau eraill y mae ganddyn nhw hawl iddynt;
- sicrhau gweinyddiaeth AD a busnes effeithiol yn gyffredinol;
- darparu tystlythyr os gwneir cais ar gyfer gweithwyr presennol neu gyn-weithwyr;
- ymateb i ac amddiffyn yn erbyn unrhyw hawliadau cyfreithiol; a
- chynnal a hyrwyddo cydraddoldeb yn y gweithle mewn amrywiol ffyrdd gan gynnwys Gwerthuso Swyddi.

Caiff rhai categorïau arbennig o ddata personol, megis gwybodaeth am gyflwr iechyd neu feddygol, eu prosesu er mwyn ymgymryd ag ymrwymïadau cyfraith cyflogaeth (megis rhai mewn perthynas â gweithwyr ag anabledd ac i ddibenion iechyd a diogelwch).

Lle mae GTAGC yn prosesu categorïau eraill o ddata personol, megis gwybodaeth am darddiad ethnig, tueddfryd rhywiol, iechyd neu grefydd neu gred, gwneir hyn i ddibenion monitro cyfle cyfartal ac adrodd i'r llywodraeth.

Efallai hefyd bod angen GTAGC brosesu data gan ymgeiswyr am swyddi i ymateb i ac amddiffyn yn erbyn hawliadau cyfreithiol.

### **Pwy sy'n medru gweld data personol?**

Caiff eich gwybodaeth ei rhannu'n fewnol gyda staff o'r Adran AD. Pan ac lle bo'n briodol, caiff peth gwybodaeth ei rhannu gyda'r Adran Gyllid, eich Rheolwr Llinell a Rheolwyr eraill mewn meysydd busnes perthnasol sydd ei angen i gyflawni eu rôl. Mae gan staff TGCh allweddol fynediad at ddata fel y bo angen i ymgymryd â'u rôl. Mae rheolaethau ar waith i sicrhau mae dim ond y wybodaeth sy'n berthnasol i'w rôl sydd ar gael i staff.

Mae GTAGC yn rhannu eich data gyda thrydydd partiön er mwyn cael tystlythyrau cyn cyflogi gan gyflogwyr eraill; i gael archwiliad cefndir cyflogaeth gan ddarparwyr trydydd parti ac i gael archwiliadau cofnodion troseddol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.

Mae GTAGC hefyd yn rhannu eich data gyda thrydydd partiön sy'n prosesu data ar ei ran, mewn perthynas â'r gyflogres, darparu budd-daliadau a darparu gwasanaethau iechyd galwedigaethol. Mae cytundebau ar waith cyn i'ch data gael ei rannu i sicrhau bod eich data'n cael lefel ddigonol o ddiogelwch.

Gall GTAGC hefyd rannu eich data â thrydydd parti sy'n prosesu data ar ei ran, mewn cysylltiad â'r gyflogres, darparu buddion a darparu gwasanaethau iechyd galwedigaethol. Mae cytundebau ar waith cyn i'ch data gael ei rannu i sicrhau bod eich data'n cael lefel ddigonol o ddiogelwch.

Mae gan GTAGC hawl i rannu data personol categori arbennig pan fo'n angenrheidiol ar gyfer sefydlu, ymarfer neu amddiffyn hawliadau cyfreithiol. Gallai GTAGC rannu gwybodaeth â'n hymgynghorwyr cyfreithiol ac ymchwilyr allanol er mwyn cyflawni'r gofyniad hwn.

Er mwyn cyflawni ein rhwymedigaethau cyfreithiol, neu er budd diogelwch y cyhoedd, efallai y byddwn yn rhannu eich gwybodaeth â sefydliadau eraill fel:

- yr heddlu neu asiantaethau eraill sy'n gorfodi'r gyfraith
- y GIG neu sefydliadau iechyd a lles eraill
- yr awdurdod lleol perthnasol
- partneriaid eraill fel Cyfoeth Naturiol Cymru neu gwmnïau cyfleustodau

- cwmnïau yswiriant
- llysoedd, gan gynnwys swyddfa'r crwner
- sefydliadau ariannol
- sefydliadau addysgol
- Llywodraeth Cymru
- Archwilwyr

Ni fydd GTAGC yn trosglwyddo eich data y tu allan i'r Ardal Economaidd Ewropeaidd.

### **Sut mae GTAGC yn diogelu data personol?**

Mae GTAGC yn cymryd diogelwch data o ddifrif. Mae gan GTAGC bolisiau a rheolaethau mewnol i geisio sicrhau nad yw eich data yn cael ei ei gollu, ei ddinistrio'n ddamweiniol, ei gamddefnyddio neu ei ddatgelu, ac nad yw'n cael ei weld ac eithrio gan ei weithwyr wrth ymgymryd â'u dyletswyddau. Lle mae GTAGC yn cyflogi trydydd parti i brosesu data personol ar ei ran, gwnaiff hynny ar sail cyfarwyddiadau ysgrifenedig; maent dan ddyletswydd cyfrinachedd ac mae gofyn iddyn nhw weithredu mesurau technegol a chyfundrefnol priodol i sicrhau diogelwch y data.

### **Sut ac am faint o amser mae GTAGC yn storio data personol?**

Caiff data ei storio mewn amrywiol leoedd, gan gynnwys eich ffeil personél, yn systemau rheoli AD GTAGC ac mewn systemau TG eraill (gan gynnwys system ebost GTAGC).

Bydd GTAGC yn cadw eich data personol yn unol â deddfwriaeth, ond y cyfnod lleiaf fydd drwy gydol eich perthynas waith.

Mewn perthynas â gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS), unwaith y bydd penderfyniad recriwtio (neu gyflogaeth berthnasol arall) wedi'i wneud, ni fydd GTAGC yn cadw gwybodaeth am dystysgrif am fwy o amser nag sy'n angenrheidiol, fel arfer am ddim mwy na chwe mis. Bydd y trefniadau cadw hyn yn caniatáu ystyried a datrys unrhyw anghydfodau neu gwynion, neu at y diben o gwblhau archwiliadau diogelu. Drwy gydol y cyfnod hwn, bydd yr amodau arferol o ran storio diogel a mynediad a reolir yn llym yn drech.

Caiff recordiadau a gaiff eu gwneud yn ystod cyfarfodydd cyflogaeth eu storio'n ddiogel ar systemau TG yr adran AD a byddant yn cael eu cadw am 6 mis neu lai neu tan ddiwedd y broses neu tan y bydd amserlenni wedi cael eu cwblhau. Wedi hyn cânt eu gwaredu'n ddiogel a chyfrinachol.

Caiff recordiadau llais i'r Ystafell Reoli eu stori o fewn Systemau TG yr Ystafell Reoli a'u cadw am 10 mlynedd, wedi hyn cânt eu gwaredu'n ddiogel a chyfrinachol.

### **Eich hawliau**

Fel gwrthrych data, mae gennych nifer o hawliau. Medrwch:

- gael gweld a chael copi o'ch data o wneud cais;
- gofyn i GTAGC newid data anghywir neu anghyflawn;
- gofyn i GTAGC ddileu neu stopio prosesu eich data, er enghraifft pan nad oes angen y data bellach i ddibenion prosesu;

- gwrthwynebu prosesu eich data lle mae GTAGC yn dibynnu ar ei hawliau dilys fel rheswm cyfreithiol ar gyfer prosesu, a
- gofyn i GTAGC roi'r gorau i brosesu eich data am gyfnod os yw'n anghywir neu os oes anghydfod o ran a yw eich buddiannau chi yn trechu rhesymau dilys GTAGC dros brosesu data.

Os hoffech ymarfer unrhyw un o'r hawliau hyn, cysylltwch â'r Swyddog Diogelu Data drwy e-bostio [dpo@tangogleddcymru.llyw.cymru](mailto:dpo@tangogleddcymru.llyw.cymru)

Os ydych chi'n credu nad yw GTAGC wedi cydymffurfio gyda'ch hawliau diogelu data, medrwch codi unrhyw bryderon sydd gennych i'r Comisiynydd Gwybodaeth; mae manylion cyswllt i'w gweld ar ei wefan yn [www.ico.org.uk](http://www.ico.org.uk)

**Mae gennych rai cyfrifoldebau dan eich contract cyflogaeth i ddarparu data i GTAGC; gall methu â darparu data y gofynnir amdano lesteirio gallu GTAGC i weinyddu'r hawliau a'r ymrwymadau sy'n deillio o ganlyniad i berthynas cyflogaeth yn effeithiol.**